

# Ysbyty Brenhinol Gwent

## Mae'r ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd yng Ngwent yn newid

Bydd Ysbyty Brenhinol Gwent yn parhau i ddarparu gofal o'r radd flaenaf i drigolion Gwent a De Powys pan fydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agor ar 17 Tachwedd 2020. Bydd yn darparu ystod eang o wasanaethau ac yn canolbwyntio ar ddarparu gofal cyffredinol ac arferol. Gan gynnwys:



- **llawdriniaethau sydd wedi'u cynllunio a gofal ar ôl i chi gael anaesthetig cyffredinol**
- **gwasanaethau adsefydlu a therapi - gwasanaethau megis ffisiotherapi a therapi lleferydd ac iaith**
- **gwasanaethau deiagnostig - asesiadau, sganiau a delweddau Pelydr-X sydd eu hangen ar gyfer archwiliadau gan gynnwys sganiau MRI a CT**
- **Uned Asesu Feddygol**
- **Uned Mân Anafiadau 24/7 dan arweiniad nyrsys**
- **Gwasanaethau Canser**
- **amrywiaeth eang o glinigau arbenigol ar gyfer cleifion allanol**
- **Gofal Eiddilwch ar gyfer pobl hŷn**
- **Dros 371 o welyau ar gyfer cleifion mewnol**
- **apwyntiadau cleifion allanol i blant**
- **gofal cynenedigol ac ôl-enedigol a chanolfan eni dan arweiniad bydwragedd**

Bydd **Gofal Brys** yn cael ei ddarparu gan Uned Mân Anafiadau Ysbyty Brenhinol Gwent sy'n cael ei rhedeg gan ein hymarferwyr nyrsio brys. Mae ymarferwyr nyrsio brys yn weithwyr proffesiynol clinigol arbenigol sy'n arbenigo mewn gofal brys.

Byddant yn gallu rhoi triniaeth i chi os oes gennych asgwrn wedi torri, ysigiad, clais, clwyf, llosg bach, brathiad, mân anaf i'r llygad neu'r pen a llawer o anafiadau eraill. Bydd y gwasanaeth hwn ar gael 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos.

Bydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn darparu gwasanaethau arbenigol i'n cleifion mwyaf difrifol wael neu'r rhai ag anafiadau sylweddol a hon fydd yr uned drawma ddynodedig ar gyfer Gwent. Mae'n debygol, os bydd angen i chi gael gofal yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, y cewch eich cyfarwyddo i fynd yno gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol neu cewch eich cludo yno ar ôl i chi ffonio 999.

## Beth yw Uned Asesu Feddygol?

Os oes gennych argyfwng meddygol neu salwch difrifol y mae angen ei ddiagnosio byddwch yn cael eich atgyfeirio at un o'n Hunedau Asesu Meddygol. Bydd Meddygon yn y cyfleusterau hyn yn gwneud profion ac yn eich asesu cyn penderfynu ar y driniaeth fwyaf priodol i chi. Ni allwch gerdded i mewn i Uned Asesu Feddygol - mae angen i chi gael eich atgyfeirio gan eich meddyg teulu, parafeddyg, neu weithiwr meddygol proffesiynol arall.

Mae'r rhan fwyaf o gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i Uned Asesu Feddygol yn mynd adref ar yr un diwrnod. Bydd cleifion sydd angen cael eu derbyn i'r ysbyty am ofal pellach yn cael eu symud i un o'n wardiau. Bydd rhai cleifion yn cael eu symud i ysbyty gwahanol i gael y gofal sydd ei angen arnynt.

## Gofalu am Blant

Bydd gan Ysbyty Brenhinol Gwent adran cleifion allanol bwrpasol ar gyfer plant a fydd yn darparu apwyntiadau clinig gyda lle chwarae yn yr ystafell aros.

Bydd gofal argyfwng i bob plentyn yn cael ei ddarparu yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Dylai plant dros flwydd oed gyda mân anafiadau fynd i Ysbyty Brenhinol Gwent (dylai plant o dan flwydd oed fynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor).



## Gwasanaethau Mamolaeth

Bydd Ysbyty Brenhinol Gwent yn cynnig canolfan eni dan arweiniad bydwragedd ar gyfer genedigaethau arferol. Bydd mamau newydd yn cael ystafelloedd geni ac ôl-ofal unigol gydag en-suite ac yn cael dewis defnyddio cyfleusterau geni mewn dŵr.

Bydd clinigau cynenedigol ac ôl-enedigol yn darparu gofal cyn ac ar ôl geni dan arweiniad meddygon ymgynghorol a bydwragedd.

## Cael y gofal cywir i chi

Os bydd eich iechyd yn dirywio tra'ch bod yn cael triniaeth yn Ysbyty Brenhinol Gwent a'ch bod angen mynediad at yr arbenigwyr neu'r gofal critigol a ddarperir yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, byddwn yn eich trosglwyddo yno trwy ein gwasanaeth cludo cleifion pwrpasol.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **bipab.gig.cymru.**

Dilynwch ni i gael y wybodaeth ddiweddaraf neu i ofyn cwestiwn:

@BIPAneurinBevan    /BwrddIechydAneurinBevan

Dyfodol Clinigol
Clinical Futures